Ardal Cyffordd Llandudno – Nodiadau Cyfarfod Rhanddeiliaid a Enwebwyd
Dydd Iau 24 Medir 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgolion)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwraig y Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsylwyr: Cyng. R. M. Hughes
Cyng. L. Hurr
Cyng. W. E. Jones
Bethan Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Gwella a Datblygu)

1. Cyflwyniad

Rhoddodd DB gyflwyniad gan esbonio'r gweithdy.

2. Cyflwyniadau

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar gynnydd y cynllun hyd yma a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu.

Yna rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol gan gynnwys gwybodaeth ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S= Sylw)

C: A ydych wedi cynnwys y rhagamcanion tai yn y rhagamcanion disgyblion ar gyfer 2014?
A: Do - wedi cymryd ystyriaeth o'r cynllun datblygu lleol ond wedi cyfrifo nifer y plant cynradd a ragwelir gan ddefnyddio fformiwla tuedd tair blynedd
C: Os cyfunir yr ysgolion hyn, a fydd yr addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau?
A: Bydd y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn parhau gan ei fod yn hanfodol ar gyfer yr ardal.
C: Sut ydych yn gwybod os yw rhieni yn dewis eu hysgol leol ai peidio a'r rhesymau dros hyn?
A: Rydym wedi edrych ar godau post o ran dalgylchoedd ond nid ydym wedi siarad yn uniongyrchol â rhieni ynglŷn â'r rhesymau dros eu dewis

Eglurodd GT y gweithdy - er bod y ffeithiau wedi eu cyflwyno, roeddem eisiau gwybod ynglŷn â'r data ansoddol tu ôl i'r rhifau.

3. Adborth Gweithdy

<u>Materion addysgol</u>

- Roedd y sylwadau ynghylch addysg yn bennaf yn ymwneud â sicrhau dyfodol addysg Gymraeg yn yr ardal a hefyd ynghylch sicrhau

dwyieithrwydd ar gyfer y rhai mewn addysg di-Gymraeg. Mae hyn yn fater diwylliannol yn ogystal â mater ieithyddol. Gallem ystyried y sylwadau ynghylch dwyieithrwydd mewn dwy ffordd:

- Eisiau sicrhau fod disgyblion cyfrwng Saesneg yn cael sylfaen yn y Gymraeg
- Eisiau sicrhau fod addysg Saesneg yn opsiwn h.y. nid dim ond cael ysgol cyfrwng Cymraeg

- Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i gymysgu addysg Cymraeg a Saesneg os yw'r ysgolion yn cyfuno - poeni am ffafriaeth.

- Cafwyd sylwadau ynghylch:
  - Digon o adnoddau
  - Arbenigedd addysgu
  - Addysgu sgiliau cymdeithasol/bywyd
  - Addysg gyn-ysgol ac arian ar gyfer grwpiau cyn-ysgol i gael defnyddio cyfleusterau'r ysgol
  - Unrhyw ddatblygiad newydd i fod yn 'addas o ran y cyfnod sylfaen'
  - Ymgynnwys rhieni
  - Addysg oedolion

<u>Materion cymdeithasol</u>

- Codwyd y materion canlynol:
  - Unrhyw ddatblygiad newydd i gymryd ystyriaeth o broblemau traffig tebygol
  - Dylai lleoliad ysgolion ganiatáu i blant gerdded/beicio i'r ysgol
  - Polisi cymydog da
  - Ymwneud cymunedol - caniatáu i grwpiau/digwyddiadau cymdeithasol ddefnyddio'r adeilad
  - Caniatáu i'r bobl leol gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a fyddai'n cynyddu'r teimlad o berchnogaeth leol
  - Bwlio (yn yr ysgol a thu hwnt), cynyddu hunan barch pobl ac ymwneud/presenoldeb yr heddlu.

<u>Adeiladau</u>

- Dylai unrhyw adeilad newydd gael ei adeiladu i bara, bod o ansawdd uchel a'i ddylunio fel y gellir gwneud unrhyw newidiadau/estyniadau yn rhwydd yn y dyfodol.

- Dylai'r ffreutur/gegin gynnwys man bwyta ar wahân (na ddefnyddir ar gyfer unrhyw beth arall).

- Teimlwyd fod gwella ysgolion sy'n bodoli neu ddarparu adeilad newydd yn orfodol i ddarparu addysg yn yr unfed ganrif ar hugain.

- Soniwyd am yr angen ar gyfer dwy ysgol lai am y rhesymau canlynol:
  - Sicrhau ymrwymiad i'r iaith
  - Gwell synnwyr o gymdeithas
  - Llai amhersonol
  - Dosbarthiadau llai

- Soniwyd am nifer o gyfleusterau y byddid eu hangen ymysg y rhain “Ardal Werdd”, byddai’n rhaid iddi fod yn ddigonol ar gyfer addysg amgylcheddol, gwaith awyr agored, ysgolion coedwig etc. Ardal werdd ddymunol y gall plant ei mwynhau – dim caeau chwarae agored.

- Roedd diogelwch y plant yn flaenoriaeth (bwlio a diogelwch cyffredinol).

Ysgolion fel asedau cymunedol

- Roedd mynediad i’r bobl leol ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau’r ysgol yn ffactor bwysig. Nodwyd y canlynol:
  - Cyfleusterau chwaraeon
  - Addysg bellach/oedolion
  - Clybiau
  - Ystafell TG ar gyfer defnydd cymunedol cyffredinol

- Byddai angen gweinyddwr adeiladu i sicrhau mynediad tu hwnt i oriau ysgol i’r bobl leol ac i dynnu rhywfaint o faich oddi ar staff addysgu.

- Teimlwyd y gallai’r ysgol(ion) hybu ysbryd cymunedol a bod yn fan cyfarfod i rieni ac aelodau eraill o’r cyhoedd. Dylid ystyried cynnwys cyfleusterau hamdden, gan gynnwys pwll nofio, yn ogystal â neuadd fawr sy’n addas ar gyfer cyngherddau.

- Dylid ystyried clwb brecwast/ar ôl ysgol.

Cyfleoedd arall

- Dylai cynaladwyedd yr adeilad fod yn elfen gref yn y broses ddylunio o ran costau cynnal, effaith amgylcheddol (paneli solar, ynni gwyrdd a chael adeilad carbon niwtral) a defnydd cymdeithasol.

- Dylid ystyried cynnwys canolfan gymunedol yn yr ysgol a gellir ei gysylltu ag ailadeiladu/moderneiddio’r neuadd goffa.

- Dylid hefyd ystyried cyfleusterau celfyddydol, hamdden, addysg oedolion a llyfrgell (llyfrgell mwy na’r un presennol, oriau agor hwy a gwell cyfleusterau TG).

- Mae angen cyfleusterau digonol (llwybrau traed, llwybrau beicio a pharcio).

- Gallai adeilad newydd ddarparu “wow” ffactor ar gyfer ail ddatblygiad Cyffordd Llandudno.

4. Sesiwn cwestiynau ac ateb terfynol (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

C: Unrhyw farn ynghylch lleoliad yr adeilad newydd - a fydd mwy o ymgynghori?
A: Bydd ymgynghoriad cymunedol gan fod hyn yn statudol, mae ymgynghoriad agored yn rhan o’r broses
C: Angen mwy na deuddydd o rybudd ar gyfer y cyfarfod
C: A ystyrir barn y bobl leol?
A: Ymgynghoriad llawn ar y strategaeth ddrafft, bydd y strategaeth angen cefnogaeth yr ardal er mwyn gwneud unrhyw newid

S: Agored i syniadau newydd -teimlo'n gryf am ysgolion ar wahân

Diolchodd DB i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r cyfarfod gan y cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.

Maes parcio

- Gwnaethpwyd nifer o sylwadau ynghylch cadw staff.
- Roedd un sylw yn cefnogi'r ddarpariaeth o adeilad newydd ar gyfer cyfuno'r ysgolion tra bod un arall eisiau sicrhau fod yr adeilad o safon uchel.
- Gwnaethpwyd nifer o sylwadau ynghylch addysg Gymraeg/dwyieithog.
- Cafwyd cais i anfon copïau o'r nodiadau i'r ddwy ysgol.